PULESTON, Syr JOHN HENRY (1829 - 1908), bancer ac aelod seneddol

Enw: John Henry Puleston
Dyddiad geni: 1829
Dyddiad marw: 1908
Rhiant: John Puleston
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bancer ac aelod seneddol
Maes gweithgaredd: Economeg ac Arian; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Emyr Gwynne Jones

Ganwyd 2 Mehefin 1829 ym Mhlas Newydd, Llanfair Dyffryn Clwyd, mab hynaf John Puleston, disgynnydd o Bulestoniaid Emral. Addysgwyd ef yn ysgol ramadeg Rhuthyn a Choleg y Brenin, Llundain. Bu yn yr Unol Daleithiau am gyfnod a daeth yn hysbys yno rhwng 1856 a 1860 fel golygydd dau newyddiadur, ac wedi hynny fel bancer cyfrifol ac fel cyrnol anrhydeddus dan yr arlywydd Wilson yn y Rhyfel Cartref. Wedi dychwelyd i Loegr bu'n aelod seneddol tros Devonport, 1874-92; ymgeisiodd yn erbyn David Lloyd George yn etholiad Sir Gaernarfon, 1892, ond ni lwyddodd i ennill y sedd. Gwnaed ef yn farchog yn 1887, a bu'n rhaglaw dinas Llundain a chwnstabl castell Caernarfon. Yr oedd Syr John yn Eglwyswr blaenllaw, yn Geidwadwr cydwybodol, ac yn Gymro cynnes a ymddiddorai ym mhob mudiad cenedlaethol Cymreig. Bu'n is-lywydd Cymmrodorion Llundain, trysorydd Cymdeithas yr eisteddfod Genedlaethol, 1880-1907, a chadeirydd cyntaf pwyllgor Clwb Cymreig Llundain. Bu farw 19 Hydref 1908. Yr oedd ei chwaer, Mary Ann Puleston ('Mair Clwyd') yn fam i'r Parch. John Puleston Jones.

Awdur

Emyr Gwynne Jones, (1911 - 1972)

Ffynonellau

R. W. Jones, *Y Parchedig John Puleston Jones M.A., D.D.* (Caernarfon 1929), 14-5

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 21 Hydref 1908

Y Brython, 22 a 29 Hydref 1908

Y Cymmrodor, 1951, 181-2

Darllen Pellach

Archifau LlGC: Etholiad Bwrdeisdrefi Arfon: Hanes Seneddol Mr. Lloyd George a Syr John Puleston

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 61176546

Wikidata: Q6238920

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu